Cymunedau Digidol Cymru — Hyder Digidol, Iechyd a Lles | Digital Communities Wales — Digital Confidence, Health and Well-being | Darparwyd gan / Delivered by cwmpas | Rhaglen Llywodraeth Cymru / Welsh Government Programme

## Astudiaeth achos

# Partneriaeth Cael RhCT Ar-lein



Mae Scott Tandy, sy'n aelod o Bartneriaeth Cael RhCT Ar-lein yn esbonio pam mae hybiau cymunedol lleol – a'r bobl y tu ôl iddynt – yn hanfodol ar gyfer cael mwy o bobl ar-lein. Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod bob chwarter er mwyn i bobl ddatblygu syniadau a chydweithio ar gyfer cynlluniau cynhwysiant digidol.

Sefydlwyd Cael RhCT Ar-lein (Rhondda Cynon Taf) gan Cymunedau Digidol Cymru i ddod â phartneriaid a grwpiau lleol sydd â diddordeb mewn hyrwyddo gweithgareddau cynhwysiant digidol at ei gilydd. Cefnogir y prosiect gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i strategaeth cynhwysiant digidol, ac mae tua 20 o sefydliadau yn rhan o'r bartneriaeth gyda phob un yn dod â'u mewnwelediadau a'u gwybodaeth unigryw. Mae Scott Tandy, Arweinydd Digidol Cymdeithas Tai Newydd ac aelod o Cael RhCT Ar-lein, yn disgrifio'r bartneriaeth fel:

> "Cydweithio i ddatblygu syniadau a bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth ei gilydd, o'n tenantiaid i'r gymuned leol a phawb yn y canol."

Mae Hyrwyddwyr Digidol y bartneriaeth – sy'n arbenigwyr gwirfoddol mewn gwahanol fathau o dechnoleg ddigidol – yn hanfodol i'r prosiect, gan gefnogi'r gymuned leol gyda'u sgiliau a'u gwybodaeth. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r gwasanaeth llyfrgell a'i hybiau cymunedol hefyd wedi bod yn hanfodol i annog cynhwysiant digidol, gyda'u dydd Gwener Digidol – a gynhelir mewn llyfrgelloedd ledled Rhondda Cynon Taf – yn llwyddiant ysgubol o ran cynyddu llythrennedd digidol yn y gymuned.

### Esbonia Scott:

> "Yn ystod ein sesiynau Dydd Gwener Digidol, mae arbenigwr digidol gwirfoddol wrth law i gefnogi unrhyw un sydd angen ychydig o help i fynd ar-lein.
> Mae'n wych oherwydd gall unrhyw un alw heibio ei llyfrgell lleol a chael yr help sydd ei angen arnynt."

Ffordd arall y mae Cael RhCT Ar-lein yn cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol yw drwy fenthyg tabledi sy’n cynnwys data i aelodau o’r gymuned efallai nad ydynt yn gallu fforddio neu ymrwymo i brynu dyfais eu hunain. Gan weithio gyda Cymunedau Digidol Cymru, gall y bartneriaeth gyrraedd rhannau o’r gymuned sydd wedi’u heithrio fel hyn a’u helpu i fagu hyder i fynd ar-lein.

Os mai troi dyfais newydd ymlaen, neu ddysgu sut i ddefnyddio e-bost, neu’n fater o ddefnyddio gwefannau penodol, mae llawer o feysydd y gellir eu harchwilio wrth helpu’r gymuned i ddefnyddio gwasanaethau a thechnoleg ddigidol. Nid yw’n ymwneud â defnyddio’r rhyngrwyd am resymau ymarferol yn unig, ond er mwyn cael hwyl hefyd. Yn wir, mae pontio rhwng diddordebau rhywun a’r byd digidol yn arf pwysig i ennyn diddordeb mewn dysgu i ddefnyddio’r rhyngrwyd a dangos iddynt y buddion niferus y gellir eu hennill.

## Dywedodd Scott:

> “Mae’n bwysig gwneud y cysylltiad hwnnw. Weithiau, wrth ddangos pethau newydd i bobl gallwch eu drysu, ond drwy gysylltu ac ymarfer gyda thechnoleg newydd efo’i gilydd, maent yn fwy tebygol o gofio’r wybodaeth honno.”

Er mwyn i gynlluniau fel Dydd Gwener Digidol a’r cynllun benthyg tabledi lwyddo, mae Scott yn credu ei bod yn bwysig cefnogi’r gwirfoddolwyr – rhywbeth y gall y rhyngrwyd ei hwyluso. Fel hyn, mae rhannu gwybodaeth ac adnoddau o fewn y bartneriaeth, a thrwy hybiau cymunedol a sianelau ehangach sy’n archwilio eithrio digidol wedi bod yn hanfodol i lwyddiant prosiectau dan arweiniad partneriaid yn Rhonddfa Cynon Taf.



## Esbonia Scott:

> “Mae’r amrywiaeth o geisiadau a gawn ar ddydd Gwener Digidol yn wych, ond efallai na fyddwch yn gwybod yr ateb eich hun! Yn yr achosion hyn, mae Sianel Microsoft Teams ein Hyrwyddwyr Digidol wedi bod yn amhrisiadwy. Rydym wedi gallu defnyddio’r sianel i rannu gwybodaeth a dod o hyd i’r arbenigwr cywir i ddatrys y broblem.”

> Rydym yn gweithio'n galed i wneud i'n gwirfoddolwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae dyfnder gwybodaeth ein Hyrwyddwyr Digidol yn anhygoel, ac mae'r arbenigedd yn amrywio o e-ddarllenwyr i ffotograffiaeth ddigidol. Mae'r prosiect yn gweithio'n dda iawn ac mae'r cyfan o'u herwydd nhw.

Gan adeiladu ar lwyddiant Dydd Gwener Digidol a'r Hyrwyddwyr Digidol yn RhCT, mae'r bartneriaeth wedi datblygu gwefan i hyrwyddo eu cynllun benthyg dyfeisiau a chyfeirio pobl yn lleol ac yn genedlaethol at opsiynau cymorth digidol. Mae Cael RhCT Ar-lein hefyd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r cyngor bwrdeistref yn unol â'u strategaeth ddigidol i fynd i'r afael â materion fel cost wi-fi yn yr ardal, er mwyn dileu'r rhwystrau er mwyn i bobl allu mynd ar-lein.



## Tri phrif awgrym gan Cael RhCT ar-lein:

1. **Canolbwyntiwch ar feithrin cysylltiadau dynol**
2. **Sicrhewch fod eich gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi**
3. **Peidiwch byth â thanbrisio pwysigrwydd hybiau cymunedol lleol**

**Helpwch eich cymuned i ddysgu sgiliau digidol sy'n newid bywydau gyda'n hyfforddiant rhad ac am ddim.**

**I gymryd rhan, ewch i:**

digitalcommunities.gov.wales/cy/ 0300 111 5050 @DC_Wales